Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dechrau Disglair

**Ysgol Gymraeg Dyffryn Y Glowyr**
**Bethel Road**
**Lower Cwmtwrch**
**Swansea**
**SA9 2PT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dechrau Disglair

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Dechrau Disglair |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Emma-Wynne Rofe |
| Person â gofal | Susan Hopkins |
| Nifer y lleoedd | 90 |
| Amrediad oedran y plant | 3 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 58 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 58 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:00 – 15:30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy’n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy’n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 4 Chwefror 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/11/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Manteisio ar chwilfrydedd y plant yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu i wella eu dealltwriaeth o iaith fathemategol.

A2 Ehangu’r defnydd o ofyn cwestiynau pen agored i ddatblygu’r dysgu.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn teimlo'n hyderus iawn o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn o frwdfrydig iawn ac yn ymhyfrydu yn y gweithgareddau eang sydd yn cael eu cynnig, gan ryngweithio'n dda iawn gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn dangos lefel arbennig o ddyfalbarhad yn ystod eu gweithgareddau. Gwelir plant yn dyfalbarhau wrth adeiladu tŷ i'r deinosoriaid ac eraill yn cydweithio yn frwdfrydig wrth greu patrymau gyda phaent.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd gan gyrraedd yn hapus a chyfarch yr ymarferwyr yn frwdfrydig. Dangosa'r rhan fwyaf o blant arwyddion arbennig o gariad a hoffter tuag at yr ymarferwyr gan ddangos balchder yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda phlant eraill. Ar adegau bwyd, maent yn mynd yn syth i eistedd at eu ffrindiau gan droi atynt i gael sgwrs a chwerthin yn hapus wrth drafod eu parti penblwydd a'r bwydydd maent yn eu mwynhau.

Mae llais y plentyn yn gryf iawn gyda bron pob plentyn yn hapus bod eu llais yn cael ei werthfawrogi. Gwelir plant yn cael tedi personol a thedi'r dosbarth er mwyn eu cysuro pan fod angen. Mae bron pob plentyn yn symud o un weithgaredd i'r llall yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sydd yn eu sbarduno. Er enghraifft, wrth iddynt arbrofi gyda dwr, jygiau a sosbenni o wahanol gynhwysedd. Mae mwyafrif y plant yn cyfrannu syniadau am yr hyn maent yn dymuno ei wneud yn frwdfrydig iawn ac yn mynegi eu teimladau yn hyderus. Er enghraifft, wrth ddweud sut maent yn teimlo wrth gofrestru yn ystod amser cylch. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar stori am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth ateb cwestiynau am stori sy'n sôn am y gaeaf ac adnabod lliwiau.

Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio'n wych gyda'i gilydd wrth aros eu tro. Maent yn rhannu adnoddau yn annibynnol wrth gydweithio gyda chyfarpar chwarae dŵr yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu eu ffrindiau ac yn datblygu medrau cyfathrebu cryf wrth gyd weithio'n llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn cydweithio'n feistrolgar a llawn cyffro i wneud yn siŵr fod y dŵr yn llifo i lawr yn effeithiol i grochan fawr islaw'r gegin fwd. Wrth ddathlu llwyddiant, mae rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo'n hapus iawn wrth dderbyn canmoliaeth gan yr ymarferwyr ac yn falch iawn o'u cyflawniadau personol.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau annibynnol yn hynod effeithiol. Maent yn dewis pa weithgareddau i'w cyflawni ac yn mwynhau gwneud eu tasgau dewisol. Er enghraifft, gwelir plant yn chwarae deinosoriaid yn yr ardal byd bach ac yn cynnal sgwrs ddychmygol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis llyfrau'n annibynnol a gwelir rhai yn dod at ymarferwyr i ofyn am gael gwrando ar stori. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos aeddfedrwydd neilltuol wrth gymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau ac wrth dacluso a chadw offer. Maent yn hynod gwrtais gyda'i gilydd a'r ymarferwyr ac yn amyneddgar iawn. Gwelir mwyafrif y plant yn dangos medrau corfforol cadarn, wrth reidio beiciau cydbwysedd yn fedrus iawn. Mae bron pob plentyn yn hynod o hyderus wrth arllwys dŵr a llaeth i'w gwydrau ac yn tynnu croen ffrwyth yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos brwdfrydedd yn eu chwarae, ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn datblygu medrau llythrennedd da iawn yn gyflym ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r iaith Gymraeg. Mae ychydig o blant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystyrlon yn achlysurol wrth ymateb i sgwrs yr ymarferwyr sydd yn gryfder yn y lleoliad. Mae plant yn cael mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae llawer o blant yn trin llyfrau'n hyderus, a'r rhan fwyaf yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn ymateb iddynt â diddordeb. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau clywed ac ailadrodd stori 'Syrpréis Handa' ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r eirfa sydd yn perthyn iddi. Mae llawer yn gwneud marciau'n fwriadus gyda offer fel sialc, paent, creonau a dwr.  Er enghraifft, yn y gornel chwarae rôl maent yn ymgolli wrth ysgrifennu rhestri o'r plant sy'n dod i barti ac yn defnyddio'r calendr ar y wal i benderfynu ar ddyddiad.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol yn briodol ac yn dangos peth dealltwriaeth o iaith fathemategol syml yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn adnabod rhai siapiau 2D wrth ymchwilio yn yr ardal chwarae rôl, ac yn deall bod pînafal yn 'fawr', a'r ffenestri yn y caban yn 'uchel.'

Mae chwilfrydedd naturiol y plant yn eu cymell i arbrofi'n frwdfrydig  gyda dŵr yn y gegin fwd a'r twba tyff.  Maent yn mwynhau archwilio ac ymchwilio'n annibynnol a gydag eraill er mwyn creu hufen iâ a phancos yn y gegin fwd ac wrth beintio'r celfi pren gyda'r chwistrellydd dwr.

Ar y cyfan, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio llechen electroneg yn hyderus iawn ac yn annibynnol wrth dynnu lluniau a chreu darluniadau ar rhaglen beintio.

Mae medrau modur mawr a mân y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn dangos rheolaeth gywrain wrth ddefnyddio offer i godi ac arllwys dŵr ac yn hyderus wrth gerdded a chadw cydbwysedd ar hyd llwybr pren.  Maent yn trin a thrafod gwrthrychau mân yn dda ac yn dangos dyfalbarhad wrth fwydo mwclis ar hyd llinyn, ac wrth greu collage o ddail i arddangos ar yr Oriel 'Waw.'

## Gofal a datblygiad:

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn hynod o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn dewis peidio ymgynnull gyda gweddill eu cyfoedion ar gyfer amser cylch a rhai sydd yn dewis peidio cael ffrwyth adeg byrbryd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n llwyddiannus iawn ar gyfer anghenion plant unigol. Maent yn caniatáu i'r plant wneud dewisiadau drostynt eu hunain ac yn eu hannog i ymgeisio a gwneud eu gorau wrth ymchwilio. Maent yn cyfathrebu'n hynod effeithiol ar lefel y plentyn gan annog y plant i arwain eu chwarae. Mae ymarferwyr yn rhoi clôd i blant trwy ddathlu eu hymdrechion yn frwdfrydig a diffuant, gan eu canmol am eu gwaith peintio gofalus.

Mae ymarferwyr yn darparu cefnogaeth eithriadol o drylwyr i blant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth o'u hemosiynau. Maent yn defnyddio amser cylch a storïau yn hynod llwyddiannus er mwyn trafod teimladau. Maent yn cynllunio ystod

eang o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'n gyflawn. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau o draddodiadau diwylliannau a chrefyddol eraill wrth ymgymryd a phrofiadau o Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a hefyd phrofiadau sy'n perthyn i'w teuluoedd personol hwy. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd ardderchog sy'n datblygu medrau annibynnol y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn modelu ymddygiadau cadarnhaol yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn modelu ac annog y plant i fod yn gwrtais a charedig i'w gilydd ar bob adeg.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n eithriadol o agos gyda'r rhieni a gwarchodwyr i ddiwallu anghenion y plant yn hynod lwyddiannus gan ymateb yn gadarnhaol i'w hanghenion meddygol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol. Maent yn adrodd yn ôl ar weithgarwch, cynnydd, gofynion ac anghenion y plant yn effeithiol. Mae trefniadau anghenion addysgol ychwanegol (ADY) y plant yn cael eu diwallu yn hynod o dda, a dangosa'r ymarferwyr ddealltwriaeth arbennig o'r weithdrefnau ADY mwyaf diweddar.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan  ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn, ac yn defnyddio'u gwybodaeth o hyfforddiant perthnasol yn llwyddiannus i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae systemau goruchwylio arbennig o dda yn eu lle er mwyn cadw plant yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbryd a diodydd iachus. Maent yn gweithredu systemau glanhau, di-heintio ac asesu risg trwyadl, ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a dileu unrhyw risg. Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr dystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, hylendid bwyd a diogelu plant cyfredol. Maent yn cadw cofnodion manwl iawn o bob digwyddiad a damweiniau gan sicrhau bod rhieni ac ymarferwyr yn eu llofnodi.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn cyd weithio'n dda fel tîm i sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn ddiddorol a phwrpasol sy'n annog y plant i fod yn annibynnol. Maent yn llwyddo i greu naws gynnes a chartrefol mewn adeilad newydd. Mae'r ymarferwyr yn arbrofi gydag arferion amrywiol o arsylwi ac asesu ac yn defnyddio eu harsylwadau'n bwrpasol i gyfrannu at gynllunio gweithgareddau wythnosol. Maent yn cynllunio cyfleoedd addas i'r plant archwilio ac arbrofi yn yr ardal allanol, er enghraifft, trwy gynnig amrywiaeth o offer garddio a thyfiant yn cynnwys chwyddwydrau ac offer palu.  Mae'r profiadau sy'n cael eu cynnig yn yr ardal allanol yn hybu creadigrwydd, lles, chwilfrydedd a gallu'r plant i gyfathrebu'n dda. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sydd yn cynnal datblygiad ieithyddol y plant yn dda iawn gyda chyfleoedd pwrpasol i ddatblygu dealltwriaeth pellach o stori Syrprêis Handa, sydd yn cynnwys bywyd ac anifeiliaid yn Affrica. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu patrymau ieithyddol cadarn ymysg y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymateb yn ddigon effeithiol ar chwilfrydedd plant i wella eu dealltwriaeth o iaith fathemategol.

Mae'r ymarferwyr yn dathlu Cymreictod y plant yn effeithiol. Maent yn arddangos baneri Cymru, a chynnig cyfleoedd i chwilio am Gymru ar y glôb. Maent yn creu ymdeimlad o berthyn trwy greu amrywiaeth o arddangosfeydd a modelau 3D o lowyr. Maent yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, er enghraifft wrth ddysgu am ddathliadau gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o fannau cychwyn y plant a gallant  ddangos tystiolaeth o'u cynnydd. Maent yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiad y plant yn gyson gyda'r rhieni ac yn cynnig arweiniad cadarn tuag at symud y dysgu i'r cam datblygiadol nesaf. Mae ymarferwyr yn weithwyr allweddol i blant penodol ac yn cwblhau arsylwadau'n gyson. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i fwydo eu cynlluniau wythnosol. Fodd bynnag, yn ystod eu arsylwadau mae tuedd gan yr ymarferwyr i ofyn cwestiynau caeedig sy'n cyfyngu gallu'r plentyn i feddwl yn ehangach.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n dda ac maent yn cynllunio'n fwriadus i ddefnyddio llechi electroneg. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddoeth i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddawnsio wrth wylio rhaglen Gymraeg ar y wê, ac arbrofi symud mewn amrywiaeth o ffurfiau ar hyd y llwybr pren.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig llu o weithgareddau awyr agored sy'n annog plant i ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i arbrofi gyda gwahanol offer.  Er enghraifft, mae'r plant yn fyrlymus wrth ddefnyddio golau i ddarganfod ansawdd gwahanol ddeunyddiau yn eu hamgylchedd ac wrth frwsio'r dail tu allan.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd cyfoethog, diogel, a thu hwnt o safonol sy'n sbarduno chwarae a dysgu'r plant yn hynod llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod gwiriadau'r lleoliad ac asesiadau risg yn cael eu hadnewyddu yn rheolaidd. Mae trefniadau diogelu'r safle yn arbennig o safonol. Mae ganddynt system electronig i ddiogelu'r lleoliad. Mae systemau arbennig i ymwelwyr y safle, lle gofynnai arweinwyr am weld bathodynnau adnabod, a gofynnir i ymwelwyr cofnodi eu presenoldeb mewn cofnod o ymwelwyr i'r lleoliad. Mae'r arddangosfeydd niferus yn ddeniadol i blant. Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae  yn tanio dychymyg y plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau annibynnol. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant ddatblygu medrau datrys problemau wrth symud yn ddi-dor o'r ardal fewnol i'r ardal allanol.

Mae arweinwyr yn darparu ystod arbennig o adnoddau ynghyd ag arddangosfeydd hynod lliwgar sy'n dathlu gwaith y plant. Mae'r ardaloedd allanol yn hynod o ddiddorol ac yn darparu dewis cyfoethog o weithgareddau sy'n datblygu medrau annibynnol corfforol, ieithyddol a chreadigol yn dda iawn.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn llwyddiannus. Er enghraifft mae plant yn gallu dod at ei gilydd yn ystod adegau bwyd i gyd-eistedd ar gelfi addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod darpariaeth dda o ardaloedd tawel ar gael i blant.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd da iawn i blant ddatblygu eu dealltwriaeth am y byd ehangach, cydraddoldeb a datblygu perthnasedd ag eraill. Mae yna ddewis helaeth o lyfrau personol a moesol sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant

o deimladau a chefndiroedd pobl eraill. Darperir ystod arbennig o adnoddau sy’n hybu dealltwriaeth y plant o’r byd o’u cwmpas. Mae arweinwyr yn darparu profiadau a gwrthrychau am Affrica a hefyd rhai o Gymru.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r arweinwyr a’r unigolyn cyfrifol yn brofiadol iawn. Mae ganddynt gyfoeth o wybodaeth am ddatblygiad cynnar plant ac maent yn llwyddo i rannu hyn yn llwyddiannus. Maent yn fodelau rôl effeithiol ac yn barod i herio eu hunain gyda phrosesau gwella. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol a gwrando'n dda ar rhanddeiliaid. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau cysondeb clir ar draws y ddarpariaeth. Mae’r arweinwyr yn frwdfrydig dros sefydlu ethos Cymreig yn y lleoliad ac mae datblygiad a thŵf yr iaith Gymraeg wrth graidd eu gweledigaeth. Mae arweinwyr yn dangos dealltwriaeth arbennig am eu cyfrifoldebau rheoleiddiol a maent yn rhagori ar ddisgwyliadau safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben sydd yn adlewyrchiad da iawn o’r hyn mae’r gwasanaeth yn ei gynnig.

Mae’r person â gofal yn aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol gynradd sy’n cryfhau’r bartneriaeth llwyddiannus sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r lleoliad. Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n wybodus gyda’r ymarferwyr ac yn cynnig arweiniad da iawn wrth sicrhau bod ymarferwyr yn deall gweithdrefnau’r lleoliad a’u dyletswyddau personol, yn ogystal a chynnig datblygiad proffesiynol cyson iddynt. Mae’r trefniadau cryf a chyson yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu yn llwyddiannus.

Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu’n fuddiol at y broses hunan arfarnu sy’n galluogi’r arweinwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r lleoliad a’r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae’r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella yn glir ac yn addas.

Mae gwariant grantiau wedi cael ei gynllunio'n ofalus er mwyn cwrdd â'r blaenoriaethau ac mae arweinwyr yn gweithredu'n brydlon i’w cyflawni.

Mae’r lleoliad yn elwa oddi wrth y berthynas agos sy’n bodoli rhyngddynt a’r ysgol gynradd. O ganlyniad i’r cydweithio agos mae bron pob plentyn yn trosglwyddo’n fodlon i’r ysgol gynradd.

Mae arweinwyr yn rhannu adroddiadau manwl gyda rhieni am ddatblygiad eu plant. Mae’r rhieni yn hapus gyda’r wybodaeth cyson sydd yn cael ei anfon atynt yn wythnosol ar e-byst. Maent yn derbyn gwybodaeth am yr eirfa sy’n cael ei ddatblygu yn wythnosol ac mae ganddynt ffydd a hyder yn yr hyn sy’n digwydd yn y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2023